*This document is available in English*

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Panel Gweithredol** |
| Rhif adroddiad | **EP/2017/07/08** |
| Dyddiad | **17/07/17** |
| Swyddog Arweiniol | **Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Richard Fairhead** |
| Pwnc | **Cydweithio** |

**PWRPAS YR ARODDIAD**

1 Rhoi gwybod i'r aelodau am y cynnydd wrth ddatblygu prosiectau ar y cyd rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC), Heddlu Gogledd Cymru (HGC) ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae prosiectau ar y cyd yn parhau i ddatblygu rhwng GTAGC, HGC ac YGAC drwy Fwrdd Rhaglenni Cydweithredu'r Tri Gwasanaeth (BRhCTG - *TSCPB*). Mae gwaith y bwrdd wedi cael eu drefnu o gwmpas tair ffrwd waith, sef: a) Atal ac Ymateb; b) Gwasanaethau Cefnogol; ac c) Ystafelloedd Rheoli ar gyfer Anfon Allan. Gwnaed cynnydd sylweddol eisoes o ran rhai meysydd, yn enwedig y ffrwd waith Atal ac Ymateb, ac mae'r gwaith yn parhau i ddatblygu mewn perthynas ag amrywiaeth o swyddogaethau eraill lle mae'r posibilrwydd yn bodoli i wella effeithlonrwydd a/neu gost-effeithiolrwydd drwy gydweithio.

**ARGYMHELLION**

3 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad.

**CEFNDIR**

4 Mae GTAGC yn cydweithio ers llawer o flynyddoedd â HGC i wella effeithlonrwydd a/neu gost-effeithiolrwydd meysydd gwasanaeth penodol, er enghraifft yn yr Ystafell Gyfathrebu ar y Cyd, rheoli ystadau, cyfathrebu corfforaethol a chaffael. Mae gan GTAGC hanes hir o gydweithio ag YGAC hefyd, yn fwyaf diweddar wrth ddatblygu a rhannu safle ar y cyd yn Wrecsam.

5 Ym Mehefin 2015, cafodd BRhCTG, sy'n cynnwys uwch reolwyr o'r tri gwasanaeth brys yng Ngogledd Cymru, ei sefydlu er mwyn canfod cyfleoedd newydd i hybu gwelliannau pellach drwy gydweithio.

6 Roedd sefydlu'r Bwrdd hwn yn cyd-fynd hefyd â dyhead Llywodraeth Cymru fel y nodir yn ei Fframwaith Cenedlaethol 2016 i gael mwy o weithio ar y cyd a datblygu rôl diffoddwyr tân.

**GWYBODAETH**

7 Ar ôl sefydlu tair ffrwd waith wahanol, sef a) Atal ac Ymateb; b) Gwasanaethau Cefnogol; ac c) Ystafelloedd Rheoli ar gyfer Anfon Allan, fe gynhaliodd y BRhCTG waith cwmpasu i ganfod lle roedd cyfleoedd yn bodoli ar gyfer pob un o'r tri Gwasanaeth.

8 Cafodd y gwaith cwmpasu, a briffiau'r prosiectau, eu cyflwyno i'r Prif Swyddog Tân, y Prif Gwnstabl a Phrif Swyddog Gweithredol YGAC, a chytunwyd eu bod yn cyd-fynd â chyfeiriad teithiau strategol y tri gwasanaeth.

9 Roedd y prosiect atal ac ymateb yn cynnwys nifer o weithgareddau a oedd yn gofyn am ragor o gynllunio er mwyn penderfynu beth i anelu ato yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.

**Nodau tymor byr**

- GTAGC yn cyflawni ymateb meddygol brys (YMB)
- Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn HGC yn cynnal archwiliadau diogelwch yn y cartref ar ran GTAGC
- Gweithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref GTAGC yn darparu ymyriadau lleihau trosedd a chyngor gwella diogelwch ar ran HGC
- HGC a GTAGC yn asesu'r risg o godwm
- Hyfforddiant lleihau trosedd ar gyfer holl staff GTAGC
- Dechreuodd staff GTAGC ar eu hyfforddiant yn haf 2016 ar brotocolau chwilio HGC, ac maent wedi cael eu lleoli i gynorthwyo â digwyddiadau 'ar goll o gartref' gan HGC.

10 Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol yn y meysydd hyd yma, ac mae GTAGC yn aros am ganlyniad y trafodaethau cenedlaethol am ddyfodol YMB.

**Nodau tymor canolig**

- cyd-leoli staff pan fo hynny'n briodol
- staff GTAGC i gael eu hanfon allan, ar ran HGC, at bobl fregus pan gafwyd adroddiad eu bod ar goll o gartref, a hynny yn yr oriau cyntaf ar ôl iddynt ddiflannu.

**Dyheadau tymor hir**

- Datblygu rôl aml-asiantaethol i ddelio â galwadau 'nifer fawr, blaenoriaeth isel' am wasanaeth a negyddu'r angen am swyddogion arbenigol i droi allan, gan ryddhau'r rheini i fynd at alwadau â blaenoriaeth uwch.

11 Cafodd tîm treialu ymateb – y Tîm Cymorth Cymunedol (CAT) – ei lansio yn Sir Ddinbych ar 1 Awst 2016, lle roedd staff GTAGC yn cael eu hanfon allan, ar ran YGAC, at bobl a oedd wedi cael codwm ond heb gael anaf gartref, gyda'r nod yn y pen draw o negyddu'r angen i ambiwlans ddod. Mae'r tîm hefyd yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau atal ac ymyriadau, yn ogystal ag yn mynd at alwadau 'pryder am ddiogelwch' ar gyfer HGC. Mae'r cynllun treialu wrthi'n cael ei ymestyn.

12 Roedd y gwaith cwmpasu ar gyfer gwasanaethau cefnogol yn ystyried lle mae enghreifftiau cadarnhaol o gydweithio'n cael eu harddangos eisoes, gyda'r bwriad o adeiladau ar lwyddiannau blaenorol.

13 Ar ôl ystyried amrywiaeth eang o feysydd gwasanaethau cefnogol (fflyd/trafnidiaeth, cyfathrebu, gwasanaethau iaith, ystadau, caffael, dylunio ac argraffu, adnoddau dynol, cyllid a hyfforddiant), penderfynwyd canfod meysydd lle gellid cael cynnydd yn y tymor byr a chanolbwyntio sylw ar y rheini. Roedd y meysydd a ddewiswyd yn ymwneud â'r canlynol:

i. <u>Rheoli ystadau</u>
Mae GTAGC, HGC ac YGAC eisoes yn gweithredu o nifer o gyd-safleoedd, gan gynnwys y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd yn Llanelwy, y ganolfan adnoddau newydd ar gyfer GTAGC/YGAC yn Wrecsam, y cyfleuster cyntaf ar gyfer y tri gwasanaeth yng Nglannau Dyfrdwy, a chyfleusterau GTAGC/HGC yn Nhywyn a Nefyn.

ii. <u>Rheoli'r fflyd</u>
gwaith yn mynd ymlaen ar wasanaethu Cerbydau ysgafn, gosodiadau goleuadau glas, mecanwaith ar-alwad datblygu ardaloedd gweithdy ar y cyd

iii. <u>Gwasanaethau iaith</u>
cytundeb i ddarparu gwasanaethau cyfieithu, a hynny yn ysgrifenedig ac ar y pryd.

14 Roedd dwy elfen i'r gwaith ar ystafelloedd rheoli ar gyfer anfon allan:

a. roedd y gyntaf yn ymwneud â dod â thrinwyr galwadau brys YGAC i'r ystafell reoli ar y cyd sy'n bodoli eisoes ar gyfer HGC a GTAGC, a hynny er mwyn darparu ystafell reoli ar gyfer y tri gwasanaeth yng Ngogledd Cymru;

b. roedd yr ail elfen yn ymwneud ag integreiddio staff o fewn amgylchedd yr ystafell reoli fel y gallai rhai gweithgareddau fod yn rhai y gallai unrhyw weithredwr eu gwneud, ni waeth pwy oedd yn eu cyflogi gan felly ddefnyddio unrhyw gapasiti a allai fod ar gael gan un o'r asiantaethau yn ystod cyfnodau mwy distaw.

15 Yn dilyn ystyriaeth ofalus, penderfynodd YGAC ei bod yn dymuno dilyn y model 'hwb clinigol', i ddwyn ynghyd bawb sy'n ymdrin â galwadau o natur iechyd, megis Galw Iechyd Cymru a'r llinellau cymorth y tu allan i oriau ar gyfer y meddygfeydd, a gan nad oes capasiti o fewn y safle yn Llanelwy, nid ystafell reoli ar gyfer y tri gwasanaeth yw'r opsiwn mae'n ei ffafrio ar hyn o bryd.

16 Er hynny, fe addawodd YGAC y byddai'n darparu nifer fechan o glinigwyr i weithio o'r Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd er mwyn cyfrannu at y penderfyniadau ynglŷn ag anfon ambiwlans allan, gan felly leihau'r galw ar YGAC, sef rhywbeth sydd wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus.

17 Mae aelodau o staff GTAGC a HGC yn parhau i hybu a datblygu'r cyfleoedd i gydweithio fwy yn yr ystafell reoli, ac mae systemau cyffredin a hyfforddiant i hwyluso'r gwaith hwn wrthi'n cael eu darparu.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | O fudd i gymunedau Gogledd Cymru |
| Cyllideb | Roedd y cyllid ar gyfer y cynllun gwreiddiol i dreialu'r tîm cymorth cymunedol yn cael ei gefnogi gan grant o £100,000 gan Lywodraeth Cymru. |
| Cyfreithiol | Dim |
| Staffio | Defnyddio staff cyfredol – mae'r tîm cymorth cymunedol yn cynnwys ymarferwyr diogelwch cymunedol o GTAGC |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Niwed i enw da os oes rhaid i'r gwasanaeth roi stop ar unrhyw un o'r prosiectau oherwydd cyfarwyddyd gan gorff cynrychioladol neu oherwydd cyllid. |